



Elin Jones  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

29 Ebrill 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 9) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn hwn yn dod i rym ar 3 Mai 2021 cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol. Gan fod y Senedd bellach wedi ei ddiddymu ni fydd modd gosod y rhain hyd nes bod y Swyddfa Gyflwyno wedi ailagor ar ôl yr etholiad. Caiff yr offeryn ei gyhoeddi ar [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk) ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn y cyfamser.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn o fewn 28 diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud, heb gynnwys diwrnodau pan fydd y Senedd ar doriad o bedwar diwrnod neu fwy neu wedi'i diddymu, er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Felly, bydd rhaid ei gymeradwyo erbyn 3 Mehefin, yn amodol ar drefniadau toriad y Senedd nesaf. Bydd craffu ar yr offeryn a'i gymeradwyo erbyn y dyddiad hwn yn fater i'w drefnu gan y Senedd nesaf a Llywodraeth Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**